NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Pembrolizumab gyda chemotherapi yn seiliedig ar flworopyrimidin a phlatinwm ar gyfer canser oesoffagaidd datblygedig a chanser cyffordd gastro-oesoffagaidd heb eu trin

20 Hydref 2021

29 Awst 2024

Mae pembrolizumab (Keytruda) gyda chemotherapi yn seiliedig ar flworopyrimidin a phlatinwm ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer carsinoma'r oesoffagws mewn oedolion. Mae'r driniaeth ar gael os nad yw'r person wedi cael triniaeth o'r blaen a bod eu canser:

- yn ddatblygedig yn lleol ac ni ellir ei dynnu drwy lawdriniaeth, neu
- ei fod wedi ymledu i rannau eraill o'r corff yn ganser metastatig, ac
- yn dangos math o brotein a elwir yn PD-L1, gyda sgôr o 10 neu ragor ar raddfa a elwir yn sgôr bositif gyfunol, sy'n mesur sut mae PD L1 yn cael ei ddangos.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall gwefan y GIG ar ganser yr oesoffagws fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Guts UK, 020 7486 0341
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9502-8